

Gweithgaredd 7

Yn eich stryd chi



Gweler
ADNODDAU
CD ar gyfer
y darluniad a'r
daflen UDHR

Nod: Archwilio a deall y modd mae hawliau'n berthnasol i fywyd bob dydd, drwy archwilio golygfa mewn stryd sy'n arddangos hawliau dynol ar waith. Drwy drafodaeth grŵp a dosbarth mae plant yn dod yn gyfarwydd â'r hawliau a osodwyd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a'u hystyr, ac yn canfod hawliau sy'n cael eu mwynhau, eu gwrthod a'u mynnu. **Amser:** 1 awr. **Oedran:** 7+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** *Fersiwn gryno o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* (ar y CD, arddan goswch ar fwrddgwyn ac un i bob plentyn); darluniad *Yn eich stryd chi* (ar y CD, gwnewch gopi lliw, rhannwch yn bedair rhan, un i bob grŵp); ugain sticer bach crwn mewn tri lliw (i bob grŵp).

Beth i'w wneud

Esboniwch yn gryno fan cychwyn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR). Ewch i adran Drwy gyfrwng hanes yng Ngweithgaredd 6.

Yn eich stryd chi

Yn awr, dangoswch y darluniad *Yn eich stryd chi* ar y bwrdd gwyn. Esboniwch mai llun o olygfa bob dydd sydd yma – a llun o hawliau dynol. Mae'n dangos pobl yn gofyn am eu hawliau, yn mwynhau ac yn defnyddio eu hawliau, neu mae eu hawliau'n cael eu gwrthod.

Dywedwch wrth y plant eu bod ar fin dod yn dditectifs hawliau dynol.

- Beth maent yn sylwi arno yn y darlun?
- Ble yn y byd allai'r stryd (ddychmygol) hon fod?
- Oes unrhyw beth yn y darlun hwn na fyddent fyth yn ei weld yn y wlad hon?

Nawr, rhowch gopi o *fersiwn gryno Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* i bob plentyn a gofynnwch iddynt edrych ar y llun yn fanylach. Defnyddiwch gwestiynau sbarduno a rhannwch enghreifftiau:

- 1 Edrychwch ar y plant yn y parc chwarae. Pa hawl dynol maent yn ei fwynhau? (Erthygl 24, yr hawl i orffwys a hamdden).
- 2 Beth sy'n digwydd y tu allan i'r siop losin? Ydy'r heddlu wedi dal y lleidr iawn? Dangoswch y bachgen sy'n rhedeg i ffordd gyda chwdyn o losin yn y pellter. Yn yr achos hwn, pa hawl dynol sy'n cael ei wadu i'r bachgen sy'n derbyn y stŵr? (Erthygl 11, yr hawl i gael ei ystyried yn ddiniwed hyd nes ei brofi'n euog).
- 3 Edrychwch ar y dorf o bobl sydd wedi ymgynnull yng nghanol y llun ac edrychwch ar eu harwyddion. Pa hawl ddynol maent yn ei fynnu? (Erthygl 23, yr hawl i weithio a'r hawl i gyflog teg).

Gwaith grŵp

Trefnwch y dosbarth yn wyth grŵp bach. Rhowch adran o'r darlun *Yn eich stryd chi* a set o sticeri lliw i bob grŵp.

Gan ddefnyddio eu copïau hwy o'r UDHR, esboniwch mai eu gwaith hwy fel dditectifs hawliau dynol yw chwilio am enghreifftiau o hawliau dynol sy'n cael eu mwynhau, eu gwadu neu eu mynnu yn eu rhan hwy o'r darlun.

Cod lliw

Dylent nodi pob hawl maent yn ei ganfod yn y darlun gyda sticer o'r lliw cywir, ee:

Sticer melyn

– hawl dynol yn cael ei wadu;

Sticer pinc

– hawl dynol yn cael ei fwynhau neu ei ymarfer;

Sticer gwyrdd

– hawl dynol yn cael ei geisio neu ei fynnu.

Yn ogystal, mae angen iddynt hefyd nodi rhif yr erthygl/au UDHR perthnasol ar y sticer sy'n cyfeirio at y sefyllfa. Mae o leiaf 30 sefyllfa hawliau dynol gwahanol yn y darlun.

Gallwch wneud y gweithgaredd hwn ar lafar ar gyfer plant iau, neu i arbed amser.

Trafodaeth

Dylai pob grŵp adrodd yn ôl i'r dosbarth gan fynegi eu canfyddiadau. Trafodwch anghydfod posibl neu wahanol ddehongliadau, e.e. ydy'r dyn digartref yn mynnu ei hawl dynol i fwyd a lloches (yr hawl sy'n cael ei geisio) neu a yw'n ymarfer ei hawl i brotestio ynglŷn â digartrefedd (hawl a fwynheir) neu a yw ei ddigartrefedd o ganlyniad i wrthod ei hawliau dynol?